

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Llanllyfni a gynhaliwyd nos Fawrth 9fed Mai 2023 yng Nghanolfan Talysarn

1. Yn bresennol o'r Cyngor Cymuned: Gwyndaf Roberts (Cadeirydd), Hefina Roberts, Christine Hughes (Llanllyfni), Siân Dafydd, Gareth Jones, Harry Owen (Talysarn), Dylan Herbert, Barry Bracegirdle, Ceri Owen, Erfyl Williams (Penygroes), Ffion Jones (Nantlle), Dafydd Thomas (Nebo) Cyngorwyr Peter Thomas.

Ymddiheuriadau: Justin Davies, Judith Humphreys (Penygroes), Peter Bridges (Talysarn)

Yn bresennol hefyd roedd aelodau o'r cyhoedd ar ran Trigolion Maes Y Môr Penygroes ac aelodau o'r Orsaf.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y cadeirydd Gwyndaf Roberts a diolchwyd iddynt am fynychu'r cyfarfod blynyddol.

2. Gair gan y Cadeirydd - diolchodd y cadeirydd i bawb am y gefnogaeth a derbyniodd yn ei gyfnod fel cadeirydd. Esboniodd bod y gwaith yma yn wirfoddol a di-dâl, ond yn anffodus mae yna aelodau o'r cyhoedd yn barod i farnu ar y cyfryngau cymdeithasol. Ar ddechrau mis Mai 2022 etholwyd tri cynghorydd i gynrychiolo Cyngor Cymuned Llanllyfni ar Gyngor Gwynedd, sef Cyng. Dafydd Davies i gynrychioli Nebo a Nasareth, Cyng. Craig ab Iago i Benygroes a Cyng. Peter Thomas i Lanllyfni, Talysarn a Nantlle. Diolchodd y cadeirydd i Cyng. Peter Thomas am ei waith yn y pentrefi y mae yn ei gynrychioli, am fynychu'r cyfarfodydd ac am roi adroddiadau o'i waith fel cynghorydd i ni yn fisol. Piti na fuasai modd dweud yr un modd am y cyngorwyr eraill. Cymerodd y cyfle i ddiolch i'r clerc am ei gwaith gweinyddol a dymunodd y gorau i'r cadeirydd newydd a fydd yn cael ei ethol yn y man.

3. Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2023-24 - Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - Cynigwyd enw Ceri Owen i gymryd y gadair am eleni, eiliwyd hyn a derbyniodd Ceri. Cynigwyd enw Ffion Jones i barhau fel is-gadeirydd, eiliwyd a derbyniodd. Rhoddwyd y gadair drosodd i Ceri. Diolchodd Ceri i Gwyndaf am ei waith dros y flwyddyn ac ar ambell dro heriol iawn. Diolchodd am y cyfle i gael bod yn gadeirydd a diolch i Ffion am gytuno i fod yn is-gadeirydd.

4. Cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 17eg Mai 2022 – Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Adroddiad ariannol - Yn y flwyddyn o 1af Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 bu'r cyfanswm incwm y bu i'r Cyngor Cymuned ei dderbyn yn £57,781.50. Roedd yr incwm yma yn cynnwys £50,000 praesept, arian rhent am gae Mynwent Macpela Penygroes ac incwm o gladdedigaethau yn Fynwentydd y Cyngor sef Macpela Penygroes, a Gorffwysfa ac Eglwys Sant Rhedyw yn Llanllyfni. Y gwariannau mwyaf a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn oedd i'r contractwyr sydd yn torri gwair y mynwentydd a'r llwybrau cyhoeddus, golau Nadolig ar gyfer Llanllyfni ynghyd a thalu am eu gosod a'u tynnu lawr yn Llanllyfni a Penygroes, atgyweirio waliau yn Fynwent Macpela a ffensio yn y fynwent, ystafelloedd newid Talysarn ble mae'r clwb pêl-droed yn defnyddio ond mae'r Cyngor Cymuned yn y

broses o roi'r adeilad yn nôl drosodd i Gyngor Gwynedd er mwyn iddynt wedyn medru ei drosglwyddo i'r clwb pêl-droed. Rhoddwyd cyfraniad tuag at Eisteddfod Genedlaethol Cymru Llŷn ac Eifionydd 2023 ynghyd a'r cyfraniadau blynyddol i sefydliadau ac elusennau lleol er enghraifft Grŵp Blodeuwedd, Cyfeillion Ysgol Llanllyfni, Llys Llywelyn, Clybiau pêl-droed Nantlle Vale a Talysarn Celts, Cynghrais Pêl-rwyd dim ond i enwi rhai. Gwariannau eraill llai a wnaethpwyd oedd ar gyfer coed a golau Nadolig i bentrefi Nebo, Talysarn a Nantlle, Aelodaeth y Cyngor gydag Un Llais Cymru ac yswiriant blynyddol y cyngor. Roedd arian wedi ei glustnodi ar gyfer prosiect clwb ieuenctid ond yn anffodus ni fu i hyn ddigwydd yn y flwyddyn ariannol hon, ond y gobaith yw y bydd yn digwydd eleni. Diolchwyd i Gareth Jones am ei gymorth gyda pharatoi'r cyfrifon gyda'r clerck yn ystod y flwyddyn.

6. Cadarnhau Gweithdrefnau Mewnol – Cynigwyd ac eilwyd i dderbyn a chadarnhawyd y gweithdrefnau mewnol.

7. Cadarnhau Asesiad Risg – Cynigwyd ac eilwyd i dderbyn a chadarnhau'r asesiad risg.

8. Cadarnhau Cylch Gorchwyl - Cynigwyd yma fod angen newid yn y cylch gorchwyl bod is-bwyllgorau i fod yn gyfrinachol - ond yn unol â chanllaw Un Llais maent yn gyfarfodydd cyhoeddus.

9. Adroddiad gan y Cyngorwyr Sir - Roedd Cyng. Peter Thomas wedi rhannu ei adroddiadau ymlaen llaw a hefyd ar hyd y flwyddyn - nid oedd dim yn codi ohonynt a diolchwyd iddo am ei waith.

10. Cyfle i'r cyhoedd holi – Nid oedd dim yn codi gan y cyhoedd a oedd yn bresennol.